

Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod	13/ 09/ 2024
Aelod/Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad	Gary Williams, Swyddog Monitro
Teitl	Hyfforddiant Cod Ymddygiad – Trosolwg o'r ddarpariaeth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chyflwyno Hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig o'r Cyngor Sir a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi manylion i'r Pwyllgor am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu hyd yma ers yr etholiadau llywodraeth leol ddiwethaf ym mis Mai 2022 ac amlinellu cynlluniau ar gyfer darparu yn y dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad, ac yn cymeradwyo'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer darparu hyfforddiant yn y dyfodol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Atodiad 1 atodedig yn nodi dyddiadau a lefelau presenoldeb digwyddiadau hyfforddi'r Cod Ymddygiad a gynhaliwyd ers yr etholiadau llywodraeth leol ddiwethaf ym mis Mai 2022.

- 4.2. Bydd Aelodau'n gweld o Atodiad 1, er bod presenoldeb y Cynghorwyr Sir wedi bod yn ardderchog, roedd lefelau presenoldeb siomedig yn y digwyddiadau amrywiol a gynhaliwyd ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.
- 4.3. Nid yw hyn yn golygu nad yw aelodau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned wedi cael eu hyfforddi. Mae llawer o gynghorau yn aelodau o Un Llais Cymru sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi rhagorol ac mae'n bosibl iawn eu bod wedi manteisio ar y gwasanaethau hyn.
- 4.4. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Monitro wedi derbyn ceisiadau gan rai Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar gyfer digwyddiadau hyfforddi i'w haelodau ac maent wedi cael gwybod y bydd dyddiadau'n cael eu trefnu'r hydref hwn ar gyfer sesiynau hyfforddi pellach.
- 4.5. Os nad yw'r dyddiadau a gynigir ar gyfer presenoldeb cyffredinol yn gweddu i'r cynghorau unigol hynny, gwneir trefniadau i ddarparu dyddiadau penodol ar eu cyfer.
- 4.6. Bydd y Swyddog Monitro hefyd yn cynnig dyddiadau i glercod iddynt fynychu hyfforddiant yn benodol ar eu cyfer. Yn aml, clercod yw'r llinell gyntaf o gyngor ac arweiniad i aelodau cynghorau lleol a gellir ei hystyried yn fuddiol iddynt dderbyn hyfforddiant sy'n edrych ar y Cod o safbwynt cynghorydd. Efallai y byddant hefyd yn teimlo y gallant ofyn cwestiynau neu rannu profiadau yn well heb i'w haelodau fod yn bresennol. Gall hyn fod o fudd arbennig i glercod cymharol ddibrofiad.
- 4.7. Bydd manylion y dyddiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Cynllun Corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae angen hyfforddiant priodol ar aelodau i allu cyfrifoldebau a thelir costau cyflwyno'r hyfforddiant o'r cyllidebau presennol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg bod llawer iawn o amser swyddogion yn cael ei fuddsoddi i ddarparu hyfforddiant nad yw'n arwain at lefelau presenoldeb uchel. Mae hyn yn cael ei orbwyso, fodd bynnag, gan y risg bod diffyg hyfforddiant yn arwain at dorri'r Cod Ymddygiad yn anfwriadol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a54 Deddf Llywodraeth Leol 2000